**CYNGOR BRO MACHNO 8 / 5 / 14**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Mai yn Festri Salem gyda Dafydd Gwyndaf yn cadeirio. Hefyd yn bresennol roedd Colin Jones, Eifion Davies, Geraint Thomas, Dewi Jones, y Cynghorydd Sir, Wyn Jones a'r clerc, Elfed Williams gydag ymddiheuriadau gan Dafydd Hughes ac Eryl Owain.

Trafodwyd y canlynol:

**Toiledau** – er gwaethaf cysylltu amryw o weithiau â Chyngor Sir Conwy ni dderbyniwyd ymateb ynglŷn ag atgyweirio a chynnal a chadw'r toiledau.

**Gwefan** – mae'r cwmni oedd yn paratoi gwefan wedi tynnu'n ôl ond bydd y clerc yn trafod efo darparwyr eraill er mwyn sefydlu gwefan i'r Cyngor

**Biniau ailgylchu** – trafodaethau wedi bod efo'r Cyngor Sir ac ymddengys fod y drefn newydd o gasglu yn gweithio'n well erbyn hyn.

**Sgipiau** – trefnwyd i gael sgipiau cymunedol i Cwm ac i Benmachno.

**Llinellau melyn** – parhau i ddisgwyl ymateb gan y Cyngor Sir i'r cais i ystyried llinellau melyn ger wal y fynwent.

**Mynwentydd** – trefnu i gael prisiau ar gyfer torri a thacluso'r coed yn yn mynwentydd.

**Ariannol** – cyflwynwyd a derbyniwyd matolen ariannol 2013-14.

**Materion eraill** – derbyniwyd llythyr yn datgan bod angen sicrhau nad yw datblygiadau tai yn cael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg. Nodwyd bod y Cyngor yn cytuno â'r sylwadau.